



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020



Gadewch i ni greu'r dyfodol gyda'n gilydd



Pennod 4 - Gosod Amcanion Llesiant Da

Dechrau

1. Cyn i chi ddechrau, cymerwch gam yn ôl...

2. Gweithredwch y 5 ffordd o weithio

3. Dewch â phobl ynghyd

4. Cysylltwch y dotiau

5. Byddwch yn ddewr ac yn heriol

Diwedd

10. Gwnewch y gwahaniaeth

9. Gosodwch amcanion a chatau clir

8. Defnyddiwch iaith a chynllun sy'n hawdd ei ddeall

7. Defnyddiwch ein hadnoddau

6. Profwch a rhannwch wrth i chi fynd ymlaen



1. Cyn i chi ddechrau, cymerwch gam yn ôl...

Ar ddechrau'r broses, camwch yn ôl a byddwch yn glir ar:

- Beth ydych chi wir yn ceisio'i gyflawni? Pa effaith ydych chi ei eisïau?
- Beth yw'r broblem rydych chi'n ceisio'i datrys?
- Beth mae'r dystiolaeth (gan gynnwys asesiadau llesiant) yn ei ddweud wrthyddych chi? Dyma beth ddysgon ni o Asesiadau Llesiant 2017 [yma](#).
- Beth ydych chi eisoes yn ei wneud yn dda? A oes cyfleoedd i adeiladu arno, a throsglwyddo dysgu ar draws y sefydliad?
- Ble allech chi wella/ neu wneud mwy o bosib?
- Ble mae'r cyfleoedd i wneud cysylltiadau cryfach?

Meddyliwch am y pethau hyn trwy gydol y broses.



2. Gweithredwch y 5 ffordd o weithio

O'r cychwyn cyntaf, defnyddiwch y pum ffordd o weithio i herio sut y gellid cyflawni hyn:

- **Hirdymor:** dechreuwch o ddealltwriaeth o sut y gallai Cymru a'ch ardal fod yn wahanol ymhen sawl cenhedlaeth o nawr, a beth yw eich gweledigaeth hirdymor (gan gyfeirio'n ôl at y nodau).
- **Atal:** ystyriwch y mathau o broblemau y gallech chi helpu i'w hatal yn y dyfodol e.e. rhai cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, amgylcheddol neu rywbeth penodol.
- **Integreiddio:** ystyriwch sut y gallai eich amcanion effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eich amcanion eraill, ac ar amcanion cyrff cyhoeddus/ Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill ar gyfer eich ardal a thu hwnt.
- **Cydweithio:** deall pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol o amrywiaeth o sectorau a disgyblaethau cysylltiedig a allai gefnogi cyflawni eich amcanion
- **Cynnwys:** ystyriwch ba mor dda rydych chi'n deall amrywiaeth anghenion, a phrofiadau byw dinasyddion a fydd yn cael eu heffeithio gan eich amcanion, sut y byddwch chi'n estyn allan at y grwpiau amrywiol yr effeithir arnynt a sut y byddwch yn defnyddio hyn i lywio'ch amcanion. Ystyriwch ba ddulliau y gallech eu defnyddio i dynnu ar brofiadau byw a phwy allai helpu gyda hyn.

Cyfeiriwch at ein Fframweithiau Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer prosiectau a dylunio gwasanaethau i gael mwy o wybodaeth.



3. Dewch â phobl ynghyd

Ceiswch gynnwys pobl ar draws eich sefydliad mor eang a phosib ac ar draws sefydliadau eraill a phobl sydd yn defnyddio eich gwasanathau.

Sicrhewch fod gennych bobl sy'n cynrychioli llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol yn yr ystafell, a chynnwys y rhai na fyddent fel arfer yn cymryd rhan. Cyflwynwch a rhannu'r dystiolaeth rydych chi'n ei defnyddio, gan nodi unrhyw fylchau. Yna, [meddylwch ynglŷn perthnasau â'r weledigaeth ehangach](#), hirdymor ar gyfer yr ardal. Gall hyn fod yn bwerus gyda grŵp eang ac amrywiol o bobl.

Cyfeiriwch at ein [Taith tuag at Gynnwys](#) am ragor o wybodaeth.

4. Cysylltwch y dotiau

Os ydych chi'n datblygu amcan ar bwnc penodol, ceisiwch ei gyfuno â 3-5 pwnc arall yn nhabl 1 isod i archwilio'r effaith ehangach y gallwch chi ei chael.

Yna, archwiliwch y cysylltiadau y gallwch eu gwneud ar draws eich amcanion a'ch camau eraill. Ail-aseswch s gnewch brawf a oes mwy y gallwch ei wneud i gynyddu eich cyfraniad at bob un o'r 7 nod llesiant.

Ystyriwch sut y gallai hyn ddylanwadu neu adlewyrchu'r hyn rydych chi'n ceisio'i gyflawni, o ran eich amcan/ amcanion, yn ehangach fel sefydliad, a gwaith gwasanaethau cyhoeddus eraill yn eich ardal (e.e. Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus neu Gyrff Cenedlaethol).

5. Byddwch yn ddewr ac yn heriol

Cofleidiwch ansicrwydd, camwch y tu allan i'r hyn sydd yn gyffyrddus a gwiriwch eich bod yn chwilio am atebion (neu gynnydd) yn erbyn y cwestiynau anodd. Gofynnwch:

- A oes rhannau o'r system yn gweithio'n dda?
- Pa rwystrau sy'n atal cynnydd?
- Ydych chi'n ceisio newid neu drawsnewid?
- A yw'ch mesurau'n addas i gyflawni'r diben?
- A allech chi wneud mwy?

6. Profwch a rhannwch wrth i chi fynd ymlaen

Mae tryloywder ac chynnwys yn bwysig. Mae profi eich syniadau wrth fynd yn eich blaenau yn adeiladu ymddiriedaeth, yn helpu i sicrhau eich bod yn cydweithio ac yn cynnwys pobl, yn gallu helpu i egluro beth rydych chi'n ei bwriadu ei wneud, ac yn gwerthfawrogi barn pobl. Tynnwch sylw at sut rydych chi'n ymgorffori adborth.



7. Defnyddiwch ein hadnoddau

Ein hadnoddau allweddol:



- [Y teithiau i lesiant](#) (7 nod llesiant ac ymyfraniad).
- Fframweithiau Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer [prosiectau](#), [dylunio gwasanaethau a chraffu](#).
- [Pecyn cymorth Tri Gorwel](#).
- [Offeryn hunan-fyfyrto](#).
- [Llesiant yng Nghymru: cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory](#)- ein dysgu o'r Asesiadau Llesiant yn 2017.
- [Llesiant yng Nghymru: y siwrnai hyd yn hyn](#)- ein dadansoddiad o amcanion llesiant a chynghor ar adrodd ar gynnydd.
- [Adnoddau eraill](#)

Mae gan lechyd Cyhoeddus Cymru amrywiaeth o [adnoddau rhagorol](#) ac mae [Cyfnewidfa Arfer Da Archwilio Cymru](#) yn cynnal digwyddiadau dysgu a rhannu, gweminarau a phodlediadau ar bynciau sy'n gyffredin ar draws gwasanaethau cyhoeddus.



8. Defnyddiwch iaith a chynllun sy'n hawdd ei ddeall

Deall a diffinio beth mae geiriau'n ei olygu i'ch cynulleidfa a'ch cydweithwyr. Er enghraifft, byddwch yn glir beth yw ystyr termau penodol yn eich cyd-destun, megis 'gwytnwch', 'bregusrwydd', 'ffyniant' ac ati. Sicrhewch fod pobl yn deall y gwahaniaeth rhwng eich amcanion a'ch camau.



9. Gosodwch amcanion a chamau clir

- Ydych chi wedi pennu amcanion a chamau clir?
- A all pobl deall y gwahaniaeth rhwng eich amcanion a'ch camau?
- Ydych chi'n glir sut a phryd y byddwch yn cyflawni'r camau a'r amcanion hyn?
- A all pobl deall yr hyn rydych chi'n ceisio'i gyflawni, a pham?
- A allwch chi ddisgrifio'n glir sut rydych chi'n sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at y 7 nod llesiant?
- Allwch chi ddangos sut rydych chi wedi defnyddio'r 5 ffordd o weithio?

10. Gwnewch y gwahaniaeth

Rhannwch enghreifftiau o wneud pethau'n wahanol ac annog hunan-fyfyrio'n onest.

Ystyriwch yr effaith yr oeddech am ei chyflawni yng nghanam 1. Rhowch fesurau a gwiriadau ar waith i ddangos sut rydych chi'n dangos cynnydd ac yn gweithredu'ch amcanion a'ch camau, yn ogystal â sut rydych chi'n cyfrannu tuag at y 7 nod llesiant, y tu hwnt i fusnes fel arfer. Ystyriwch safbwyntiau tymor byr, canolig a hir, e.e. lle hoffech chi fod yn 5, 10, 15, 25 mlynedd neu fwy.

Cyflwynwch eich mesurau ansoddol a'ch gwiriadau ochr yn ochr â dangosyddion llesiant cenedlaethol Cymru i roi darlun cyflawn o'r hyn rydych chi'n ceisio'i gyflawni.

Byddwch yn glir pwy sy'n cymryd cyfrifoldeb am bob un mesur, a ydynt yn eich helpu i sefydlu camau ataliol, a sut maent yn cysylltu ar draws gyda mesurau ac amcanion eraill.



Tabl 1

Gwaith teg / addas	Cymdeithas garbon isel (datgarboneiddio)	Effeithlonrwydd adnoddau ac 'economi gylchol'
Caffael teg a lleol	Sgiliau ar gyfer y dyfodol	Economi leol/ sylfaen
Ynni cymunedol	Ecosystemau iach gweithredol (bioamrywiaeth a phridd)	Mannau gwyrdd naturiol
Dealltwriaeth o natur	Ansawdd dŵr ac aer	Cenedl dosturiol
Cenedl llesol	Creu lleoedd	Sefydliadau a gwasanaethau ataliol
Cyfleoedd addysgol i bawb	Cyfranogiad dinasyddion a chymuned	Cydraddoldeb canlyniadau iechyd
Pobl sy'n weithgar yn eu cymunedau	Cymunedau cysylltiedig a diogel	Mynediad i wasanaethau llesiant allweddol
Sefydliadau angor cymunedol	Hyrwyddo a gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg	Diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg fel mecanwaith ar gyfer newid
Cymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon ac hamdden	Diwylliant ar gael i bawb	Gwerthfawrogi creadigrwydd
Cadwyni cyflenwi teg, moesegol a chynaliadwy	Dinasyddiaeth ac arweinyddiaeth fyd-eang	Undod a heddwch
Cyfran deg o adnoddau naturiol	Buddsoddi a gwaredu'n deg a moesegol	Cyfranogiad ystyrlon dinasyddion a rhanddeiliaid

Mae'r pynciau a amlygir yn nhabl 1 yn feysydd ffocws allweddol a gymerwyd [o'n teithiau i lesiant](#), sy'n deillio o'r diffiniad o bob nod llesiant.

